

## ARCHIFDAITH

### Cyflwyniad

Wedi gwyllo'r ffilm mae'n siŵr eich bod wedi sylweddoli bod y ffin rhwng digwyddiad a theatr yn un tenau iawn.

Mae gan Marc Rees ddiddordeb mewn cysylltu'r gorffennol a'r presennol a hefyd sut mae rhywun yn creu hanes.

Drwy greu darn o waith celfyddydol / theatrig mae'n ceisio creu hanes i'r adeilad . Mae natur bob darn o theatr yn effemeral – ddim yn bodoli ond yn yr eiliad hwnnw . Mae'r un peth yn wir am y darn yma mae Marc Rees wedi 'i greu yn Pontio.

Wrth gwrs mae pob darn o theatr yn dibynnu ar gynulleidfa a'u hymateb ac mae pob aelod o'r gynulleidfa yn ymateb mewn ffordd wahanol i'r un darn o waith.

Nid pawb sydd yn hoffi'r math yma o waith ond mae yna le pendant iddo o fewn y broses creu.

Wrth ystyried creu darn ar gyfer asesu mae cael ymateb cynulleidfa yn bwysig ond mae hefyd yn bwysig herio'r gynulleidfa. Nid oes rhaid iddyn nhw ddeall pob darn o berfformiad i'w fwynhau ac i gael profiad ynddo.

Yn y darn yn Pontio mae'r perfformwyr yn defnyddio bocsys cardfwrdd a'u cario o gwmpas yr adeilad gan eu hail drefnu bob tro . Yna maent yn datgan ffeithiau am yr ardal leol sydd wedi eu cadw yn yr archifdy. Mae'r ffeithiau yn cael eu datgan drwy 'loud hailer' sydd yn rhoi naws annaturiol i'r llais.

Yn y ffilm mae'n anodd gweld y gynulleidfa ond mae'r ddau berfformiwr yn gwisgo gwisg o ddechrau'r 20fed ganrif.

Mae' n siŵr y buasai chwilfrydedd y gynulleidfa yn codi wrth wyllo'r ddau berfformiwr yn symud y bocsys a datgan y ffeithiau.

Beth sydd yn ddiddorol am y perfformiad yw eu bod yn defnyddio'r adeilad fel set a man perfformio. Nid oes ffiniau rhwng neb yn yr adeilad.

Mae Ysgol neu goleg yn lle delfrydol i greu digwyddiad neu berfformiad tebyg. Mae cwmnïau Seisnig fel *Punchdrunk* yn defnyddio lleoliadau penodol i greu profiad 'immersive' i'r gynulleidfa.

## ARCHIFDAITH

### Tasg

Pwrpas yr ymarfer hwn yw nodi a gwylio ymateb y gynulleidfa.

1. Crëwch daith o amgylch eich Ysgol / coleg yn symud o ardaloedd mawr i rai bach. Rhai tu fewn a rhai tu allan.
2. Wedi cynllunio'r daith penderfynwch ar wrthrych i fynd gyda phob un ohonoch. Gall fod yn gadair, yn focs, yn degan - un rhywbeth rydych yn gallu symud.
3. Wedyn cynlluniwch ychydig o frawddegau o ddeialog neu dewiswch gân i'w chanu . Ddylai hyn ddim parhau mwy na 1 funud .
4. Ymarferwch eich darn fel eich bod yn gwybod yn union beth sydd yn digwydd . Fe allwch ddefnyddio symudiadau hefyd ond cadwch y peth yn syml.
5. Os oes mwy nag un grŵp yn y dosbarth cynlluniwch i fynd o gwmpas ar eich taith ar adegau gwahanol.
6. Wedi dechrau ar eich taith ewch i'ch man perfformio , perfformiwch eich darn byr - yna symud ymlaen i'r lleoliad nesaf.
7. Gall y gynulleidfa fod yn un neu ddwsin o bobl - nid oes ots.
8. Sicrhewch fod rhywun yn ffilmio eich gwaith wrth i chi fynd o gwmpas . Ffilmiwch ymateb y gynulleidfa yn ogystal â'r perfformiad

Wedi i chi berfformio'r gwaith mae nifer o gwestiynau i'w hystyried:

- Oedd y perfformiad yn newid mewn gwahanol leoliadau?
- Oedd maint y gynulleidfa yn gwneud gwahaniaeth?
- Oedd oedran y gynulleidfa yn gwneud gwahaniaeth?
- Oedd ymateb positif/ negyddol?
- Sut roeddech chi yn teimlo wrth berfformio?
- Sut y byddai yn bosibl defnyddio darnau o waith fel hyn yn eich asesiad terfynol?

Clip:

<http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/Theatr%20Gorfforol/Archifdaith%20Cut%203.C.mov>